



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cyfieithu Llwyddiannus ac Aflwyddiannus

Seiliwyd yr enghreifftiau isod ar waith a gyflwynwyd yn arholiadau Cyflawn a Sylfaenol yn y gorffennol

1. Gwreiddiol:

Kilvert tells us later that that he didn't think that a life even as dull and uninteresting as his should pass without some record.

Cyfieithu llwyddiannus:

Dywed Kilvert wrthym yn ddiweddarach na chredai y dylai bywyd mor undonnog ac anniddorol â'i eiddo ef hyd yn oed, ddod i ben heb ryw fath o gofnod ohono.

Dywed Kilvert wrthym yn ddiweddarach nad oedd yn meddwl y dylai bywyd mor undonnog ac anniddorol â'i eiddo ef hyd yn oed, fynd heibio heb ryw fath o gofnod ohono.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Er mor ddiflas ac anniddorol oedd ei fywyd, mae Kilvert yn dweud wrthym wedyn ei fod yn dal i feddwl bod angen iddo gofnodi peth o'i hanes.

- Colli haenau o ystyr wrth gyfieithu'n rhy fras a newid trefn y frawddeg wreiddiol.

2. Gwreiddiol:

However at 37 and with no living of his own, he commented that his lack of prospects worried him and that he was much indebted to the vicar at Clyro who offered him the living at St Harmon in the north of Radnorshire.

Cyfieithu llwyddiannus:

Fodd bynnag, ac yntau'n 37 oed a heb fywoliaeth, dywedodd fod ei ddiffyg rhagolygon yn destun pryder iddo a'i fod yn hynod ddyledus i'r ficer yng Nghleirwy a gynigiodd blwyf St Harmon yng ngogledd Sir Faesyfed iddo.

Fodd bynnag, ac yntau'n 37 oed a heb ei fywoliaeth ei hun, dywedodd fod ei ddiffyg rhagolygon yn ei boeni a bod ei ddyled yn fawr i'r ficer yng Nghleirwy a gynigiodd iddo fywoliaeth Sant Harmon yng ngogledd Sir Faesyfed.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Fodd bynnag, ag yntau'n 37 oed ac yn ddi-waith, nododd fod ei ddiffyg rhagolygon yn ei boeni, a'i fod yn ddyledus iawn i ficer Clyro a gynigiodd fywoliaeth St Harmon iddo yng ngogledd Sir Benfro.

- Heb feistroli cystrawen yr ymadrodd annibynnol
- Methu ymdopi ag enwau lleoedd
- Cyfieithu'n rhy fras.

3. Gwreiddiol:

Kilvert's health was beginning to break down at this time. He had two failed romantic attachments which didn't help but while on holiday in Paris some time in March 1877 he met Elizabeth Ann whom he soon married.

Cyfieithu llwyddiannus:

Roedd iechyd Kilvert bellach yn dechrau dirywio. I wneud pethau'n waeth cafodd ddwy garwriaeth aflwyddiannus ond tra oedd ar wyliau ym Mharis rywbryd ym mis Mawrth 1877 cyfarfu ag Elizabeth Ann a phriododd y ddau yn fuan wedyn.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Roedd iechyd Kilvert yn dechrau torri yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd ddwy berthynas ramantaidd aflwyddiannus na fu o gymorth ond tra ar wyliau ym Mharis ym mis Mawrth 1877, cyfarfu Elizabeth Ann. Priododd y ddau yn fuan wedyn.

- Mewn ysgrifennu safonol dilynir y cysylltair 'tra' gan y ferf
- Mewn ysgrifennu safonol dewisir yr arddodiad 'â' i gwblhau ystyr y ferf 'cyfarfod'
- Mae 'dwy berthynas ramantaidd aflwyddiannus' yn ymadrodd enwol cloff, annaturiol
- '?yn ... torri' = 'wedi ... torri'.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Ar yr adeg yma roedd iechyd Kilvert yn dechrau torri. 'Roedd ddim yn gymorth ei fod wedi cael dau ymlyniad rhamantaidd a fethodd ond tra ar wyliau ym Mharis rhyw dro ym Mawrth 1877 cyfarfu ag Elizabeth Ann a'i priododd yn fuan.

- '?yn ... torri' = 'wedi ... torri'
- Heb feistroli cystrawen y frawddeg negyddol
- Mewn ysgrifennu safonol dewisir yr arddodiad 'â' i gwblhau ystyr y ferf 'cyfarfod'
- Mae 'dau ymlyniad rhamantaidd a fethodd' yn ymadrodd enwol cloff, annaturiol
- Mewn ysgrifennu safonol dilynir y cysylltair 'tra' gan y ferf.

4. Gwreiddiol:

Sylweddolais yn o fuan nad oedd y gôt law yn dal dŵr.

Cyfieithu llwyddiannus:

I soon realized that the raincoat wasn't waterproof.

Cyfieithu aflwyddiannus:

I soon realized that the anorak wasn't watertight.

- Nid 'anorak' mo 'côt law'
- 'waterproof' a ddewisir wrth gyfeirio at defnydd/ffabrig sydd wedi ei drin i wrthsefyll glaw.

5. Gwreiddiol:

gwŷr digon brith eu buchedd lawer ohonynt

Cyfieithu llwyddiannus:

many of them shady characters

many of them dubious characters

Cyfieithu aflwyddiannus:

many of them grizzled old men

- Heb ddeall grym idiomau'r gwreiddiol.

6. Gwreiddiol:

Un o'r rhesymau am y cynnydd sylweddol sydd wedi bod yn y sector cyfrwng Cymraeg...

Cyfieithu llwyddiannus:

One of the reasons for the substantial growth in the Welsh medium sector...

Cyfieithu aflwyddiannus:

One of the reasons for the substantial escalation in the Welsh medium sector...

- Mewn ysgrifennu safonol diweddar, dewisir *escalate*, *escalation* mewn cyd-destun sy'n trafod prisiau a rhyfela. Anghymeradwyir estyn y defnydd i feysydd eraill. Gweler, er enghraifft, Greenbaum & Whitcut: 251; Khan: 219.

7. Gwreiddiol:

Avian influenza is an infection caused by avian (bird) influenza (flu) viruses.

Cyfieithu llwyddiannus:

Haint yw'r fflw adar sy'n cael ei achosi gan firsau fflw adar.

Mae fflw adar yn haint a achosir gan firsau fflw adar.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Haint a achosir gan firsau fflw adar yw ffliw'r adar.

Drysau a wnaed yma rhwng dau fath o enidol, sef y genidol meddiannol pendant a'r genidol ansoddeiriol.

Bydd y genidol meddiannol pendant yn cyfleu perchnogaeth neu feddiant: *car fy ngwraig* (sef *ei char*). Gall y fannod neu ragenw blaen neu ragenw dangosol ddigwydd o flaen ail elfen yr olyniad: *car y wraig, car ei wraig, car y wraig hon*.

Mewn genidol ansoddeiriol, swyddogaeth ddisgrifiadol neu ansoddeiriol sydd i'r genidol yn hytrach na swyddogaeth feddiannol: *torwr beddau, wal gerrig, gwialen bysgota*.

Ni rennir elfennau'r olyniad: *y wal gerrig, y wialen bysgota hon, ei wialen bysgota*.

Y prawf di-ffael i wahaniaethu'n bendant rhwng y naill gyfluniad a'r llall yw roi'r olyniad amheus yng nghyd-destun 'y ... hwn, y ... hon' etc.

y wal gerrig raenus hon

y fflw adar heintus hwn

y fflw adar ffyrnig hwn

y fflw adar ffwdanus hwn

Ond cf ystyr feddiannol yr olyniadau isod:

ffliw'r adar bach hyn

ffliw'r adar ffyrnig hyn

ffliw heintus yr adar bach hyn

ffliw'r adar ffwdanus hyn

ffliw trwm yr adar ffwdanus hyn

Ac mae'r gystrawen feddiannol yn caniatáu goleddfu'r elfen gyntaf a'r ail elfen.

8. Gwreiddiol

Avian influenza is very contagious ... and can make some domesticated birds, including chickens, ducks and turkeys, very sick and kill them.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae fflw adar yn eithriadol o heintus ... a gall achosi salwch difrifol a lladd rhai dofednod, yn cynnwys ieir, hwyaid a thyrçwn.

Mae fflw adar yn heintus iawn ... a gall achosi salwch mawr mewn rhai adar dof, gan gynnwys ieir, hwyaid a thyrçiod, a'u lladd.

Mae fflw adar yn heintus iawn ... a gall wneud rhai adar dof, gan gynnwys cywion ieir, hwyaid a thyrçiod yn sâl iawn, a gall eu lladd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae fflw'r adar yn heintiadus iawn ... a gall wneud rhai adar, gan gynnwys ieir, hwyaid a thyrçiod yn sâl iawn, a gall eu lladd.

- fflw'r adar – gw uchod
- heintiadus – ffurfiant mympwyol; ni chofnodir y ffurf yn GPC.
- collwyd yr ansoddair 'dof' yn dilyn 'adar' yn ail hanner y frawddeg.

9. Gwreiddiol:

More than 100 confirmed cases of human infection have been reported since 1977.

Cyfieithu llwyddiannus:

Cofnodwyd dros 100 o achosion o bobl yn cael eu heintio er 1977.

Cafwyd dros 100 o achosion pendant o'r haint mewn pobl er 1977.

Darganfuwyd dros gant o achosion o'r haint mewn pobl er 1977.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Cafwyd dros 100 o achosion o'r haint mewn pobl ers 1977.

- Mewn ysgrifennu safonol gwahaniaethir rhwng y defnydd o 'er' ac 'ers'.

10. Gwreiddiol:

contaminated surfaces

Cyfieithu llwyddiannus:

arwynebau wedi'u heintio

Cyfieithu aflwyddiannus:

arwynebau wedi'u halogi

arwynebau halogedig

arwynebau llygredig

arwynebau wedi'u llygru

arwynebau wedi'u difwyno

- Anaddas i'r cyd-destun. Chwilier GPC a'r Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd am gyd-destun priodol y ffurfiau hyn.

11. Gwreiddiol:

Most cases in humans are thought to have resulted from direct contact with infected poultry or contaminated surfaces

Cyfieithu llwyddiannus:

... o ganlyniad i gyswllt uniongyrchol â dofednod ... neu ag arwynebau wedi'u heintio

Cyfieithu aflwyddiannus:

... o ganlyniad i gyswllt uniongyrchol gyda dofednod ... neu gyda arwynebau sydd wedi'u heintio

- dewis arddodiaid amhriodol.

12. Gwreiddiol:

18 people were hospitalized and six of them died.

Cyfieithu llwyddiannus:

Aethpwyd â 18 o bobl i'r ysbyty a bu farw chwech ohonynt.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Ysbytyeiddiwyd deunaw o bobl a bu farw chwech ohonynt.

- Creu ffurf ferfol fympwyol.

13. Gwreiddiol:

This Suffolk churchyard, at a place called Boulge, is well worth visiting...

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae'r fynwent hon yn Suffolk, mewn lle o'r enw Boulge, yn werth ymweld â hi...

Mae'n werth ymweld â'r fynwent hon yn Suffolk, sydd mewn lle o'r enw Boulge...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Y mae'n werth ymweld â'r fynwent eglwys Suffolk hon, mewn lle o'r enw Boulge...

- Camleoli elfennau'r rhagenw dangosol

- Cyfathrebu'n llwyddiannus yw nod pob cyfieithydd. Ni ddylai, yn ei gyfieithiad, gael ei lyffetheirio gan union gyflyniad pob uned gyfathrebu yn y testun gwreiddiol, boed yr uned gyfathrebu honno'n baragraff, yn frawddeg, yn gymal, yn ymadrodd, yn air, yn forffem, yn atalnod, yn idiom, yn ddihareb, yn gyflythrennu ...Ofnaf nad yw'r ymgeisydd wedi dysgu'r wers hon a'r canlyniad, yn anffodus, yw cyfathrebu cloff fel yn yr olyniad 'y fynwent eglwys Suffolk hon'
- Gwrthsefyll dewis ymadrodd arddodiadol ('yn Suffolk').

Mae'r fynwent hon yn Suffolk, ar bwys lle o'r enw Boulge, yn werth ei ymweld...

- Dewis arddodiad anghywir
- Mewn ysgrifennu safonol dewisir yr arddodiad 'â' i gwblhau ystyr y ferf 'ymweld'.

14. Gwreiddiol:

'God's Acre' is a book whose appeal goes far beyond the narrow limits of burial grounds.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae *God's Acre* yn llyfr â'i apêl yn ymestyn ymhellach na...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae *God's Acre* yn llyfr â'i apêl yn ymestyn ymhellach na...

- Mewn ysgrifennu safonol ni threiglir 'll-', 'rh-' yn dilyn 'yn' traethiadol.

Mae *Erw Duw* yn llyfr â'i apêl yn ymestyn ymhellach na...

- Ni ddylid cyfieithu teitl llyfr a ysgrifennwyd mewn iaith arall.

15. Gwreiddiol:

Remote from all houses and reached through a wood of ancient trees, it is totally peaceful and colourful with wild flowers.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae'r llecyn hwn ymhell o unrhyw dai a rhaid teithio trwy fforest o goed hynafol i'w gyrraedd; mae'n gwbl heddychlon a lliwgar gan flodau gwyllt.

Nid oes unrhyw dŷ yn agos iddi, a rhaid mynd trwy goedwig o goed hynafol i'w chyrraedd. Mae'n hollol heddychlon ac yn lliwgar gan flodau gwyllt.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Yn ddiarffordd o bob cartref ac yn gyraeddadwy drwy goedwig o goed hynafol, y mae'n hollol heddychlon a lliwgar gyda'i blodau hardd

- Nid yw 'blodau hardd' yn cyfleu grym *wild flowers*
- Nid yw 'yn ddiarffordd o bob cartref' yn cyfleu grym *remote from all houses*
- Nid yw 'cartref' yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Nid yw 'cyraeddadwy' yn cyfleu grym y gwreiddiol.

16. Gwreiddiol:

It is a genuine old damask rose whose seeds were brought to Britain last century from a rose on the grave of Omar Khayyam in Persia.

Cyfieithu llwyddiannus:

Hen rosyn damasg dilys ydyw a daethpwyd â'i hadau i Brydain yn y ganrif ddiwethaf o rosyn ar fedd Omar Khayyam ym Mhersia.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'n damasg-ros pur sy'n tarddu o rosyn ar fedd Omar Khayyam ym Mhersia ac y daethpwyd â'i hadau i Brydain yn ystod y ganrif ddiwethaf.

- Nid yw 'pur' yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Cam-ddehonglwyd amryw elfennau yn y cymal cyntaf.

Mae'n hen rosyn damasg pur a ddaethpwyd â'i hadau i Brydain yn ystod y ganrif ddiwethaf

- Nid yw 'pur' yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Hepgor darn sylweddol o'r testun gwreiddiol
- Dewis cymal perthynol o fath 'a', yn hytrach na chymal perthynol o fath 'y'.

17. Gwreiddiol:

During the five years...

Cyfieithu llwyddiannus:

Yn ystod y pum mlynedd...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Yn ystod y bum mlynedd...

- Mewn ysgrifennu safonol ni threiglir 'pum' yn dilyn y fannod.

18. Gwreiddiol:

Italy, Greece and France have followed Britain's lead...

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae'r Eidal, Gwlad Groeg a Ffrainc wedi dilyn arweiniad Prydain...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'r Eidal, Groeg a Ffrainc wedi dilyn arweiniad Prydain...

- Groeg yw'r enw ar iaith Gwlad Groeg.

19. Gwreiddiol:

Many aviation specialists question whether we are any better prepared to prevent it happening again.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae llawer o arbenigwyr ar hedfan yn dal i holi a ydym rywfaint yn barotach i'w atal rhag digwydd eto.

Mae llawer o arbenigwyr yn y diwydiant hedfan yn holi a ydym...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae llawer o arbenigwyr yn y diwydiant hedfan yn cwestiynu os ydym mewn gwell sefyllfa i atal yr un peth rhag digwydd eto.

- Cymal enwol o gwestiwn anuniongyrchol yw'r dewis priodol; mewn ysgrifennu safonol cyflwyno cymal amod a wna 'os'.

20. Gwreiddiol:

Because of the terrorists' ingenuity, it is difficult to predict accurately the form a future attack on an airliner might take.

Cyfieithu llwyddiannus:

Oherwydd dyfeisgarwch y terfysgwyr, mae'n anodd rhagfynegi'n fanwl gywir pa ffurf y gallai ymosodiad ar awyren ei gymryd yn y dyfodol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Oherwydd cywreinrwydd y terfysgwyr, mae'n anodd rhagweld pa ffurf fyddai ymosodiad arall yn cymryd

- Nid yw 'cywreinrwydd' yn cyfleu grym y gwreiddiol.
- Mewn ysgrifennu safonol ni threiglir 'byddai' yn y gystrawen hon
- Hepgor darn o'r testun gwreiddiol.

21. Gwreiddiol:

But there have been positive changes.

Cyfieithu llwyddiannus:

Eto i gyd mae newidiadau positif wedi digwydd.

Eto i gyd bu newidiadau positif

Cyfieithu aflwyddiannus:

Eto i gyd mae newidiadau positif wedi cymryd lle.

- Dewis olyniad ansafonol.

22. Gwreiddiol:

Tighter security measures have ensured that there has been no repeat of the September 11 attacks.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae mesurau diogelwch mwy caeth wedi sicrhau nad yw ymosodiadau Medi 11 wedi ailddigwydd.

Mae mesurau diogelwch llymach wedi sicrhau nad yw ymosodiadau Medi 11 wedi ailddigwydd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae mesurau mwy llym wedi gwneud yn siwr nad ail-adroddir ymosodiad Medi 11

- Mewn ysgrifennu safonol dewisir y cysylltnod (-) dan amodau arbennig yn unig
- Ai 'ailadrodd' yw'r dewis mwyaf priodol i gyfleu grym y gwreiddiol?
- Amser y ferf yn ail hanner y frawddeg
- Hepgor rhan o'r frawddeg wreiddiol.

23. Gwreiddiol:

It is maintained that all airline operators should be able to adapt their security measures without causing extreme disruption to passengers.

Cyfieithu llwyddiannus:

Dywedir y dylai pob cwmni hedfan allu addasu ei fesurau diogelwch heb achosi anhwylustod eithafol i deithwyr

...heb darfu'n ormodol ar deithwyr

heb greu gormod o anhwylustod i deithwyr

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'n ofynnol y dylai gweithredwyr hedfan allu addasu eu mesurau diogelwch heb achosi dryswch eithaf i deithwyr

- Heb iawn ddeall grym y frawddeg wreiddiol.
- Mae 'gweithredwyr hedfan' yn ffurf fympwyol ddiystyr.
- Byddai 'y dryswch eithaf' yn olyniad cywir; ond ni fyddai'r ymadrodd enwol diwygiedig yn llwyddo i gyfleu union rym y gwreiddiol.

24. Gwreiddiol:

Crucially, since September 11, 2001 there have been no successful aircraft hijackings.

Cyfieithu llwyddiannus:

Yr hyn sy'n hollbwysig yw na herwgipiwyd yr un awyren yn llwyddiannus er 11 Medi, 2001.

Yr hyn sy'n hollbwysig yw na chipiwyd yr un awyren yn llwyddiannus er 11 Medi, 2001.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'n hollbwysig nad oes unrhyw herwgipio llwyddiannus wedi digwydd ar awyrennau er Medi 11, 2001

- Camddeall y gwreiddiol.

25. Gwreiddiol:

The problem is not one of funding, but the security services' obsession with screening for relatively harmless objects such as tweezers and lipstick which distracts screeners from identifying genuinely dangerous materials.

Cyfieithu llwyddiannus:

Nid problem gyllido yw hyn, ond obsesiwn y gwasanaethau diogelwch â sgrinio am wrthrychau cymharol ddiniwed megis plycwy'r blew a minlliw sy'n tynnu sylw sgrinwyr rhag darganfod deunyddiau sy'n wir beryglus.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Nid problem ariannol mo'r broblem, ond obsesiwn y gwasanaethau diogelwch â sgrinio...sy'n peri i'r peiriannau sgrinio beidio adnabod deunyddiau sy'n wirioneddol beryglus

- Nid yw 'peiriannau sgrinio' yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Mewn ysgrifennu safonol bydd yr arddodiad 'â' yn dilyn 'peidio'.

Nid problem ariannu sydd yn wraidd i hyn, ond obsesiwn gwasanaethwyr diogelwch gydag edrych am wrthrychau cymharol ddi-nod megis plycwy'r a minlliw sydd yn tynnu sylw'r edrychwyr rhag canfod deunydd o wir berygl

- 'Wrth wraidd' yw'r ymadrodd safonol priodol
- Nid yw 'gwasanaethwyr diogelwch' yn cyfleu grym *security services*
- Dewis arddodiad amhriodol
- Nid yw 'di-nod' yn cyfleu grym *harmless*
- Nid yw 'edrychwyr' yn cyfleu grym *screeners*, sef y bobl sy'n gwneud y gwaith
- Rhaid dilyn 'deunydd' naill ai gan gymal perthynol neu gan ansoddair yn hytrach na chan ymadrodd arddodiadol.

26. Gwreiddiol:

Focusing on banned objects rather than behavioural patterns or passenger profiling leaves aviation unnecessarily vulnerable to future attacks.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae canolbwyntio ar eitemau sydd wedi'u gwahardd yn hytrach nag ar batrymau ymddygiad neu ar broffilio teithwyr yn gwneud awyrenau yn agored i ymosodiadau yn y dyfodol heb angen.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae ffocysu ar wrthrychau wedi eu harddel yn hytrach na newidiadau ymddygiadol neu broffilio teithwyr yn gadael yr awyrlu yn agored i ymosodiadau yn y dyfodol heb angen.

- Nid yw 'gwrthrychau wedi eu harddel' yn cyfleu grym *banned objects*
- Mae 'ymddygiadol' yn anarferedig mewn ysgrifennu cyfoes
- Nid yw 'awyrlu' yn cyfleu grym *aviation*.

27. Gwreiddiol:

Americans are being denied a Spanish delicacy. It is against US law to import jamón ibérico – the hind leg of an Iberian pig, hoof attached, covered in a thin green layer of protective mould, sprouting wiry black pig hair – because it is doubtful whether Spain has a single slaughterhouse that conforms to the regulations of the US Department of Agriculture.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae Americanwyr yn cael eu hamddifadu o ddanteithfwyd Sbaenaidd am fod cyfraith yr Unol Daleithiau yn gwahardd mewnforio *jamón ibérico*. Coes ôl mochyn Iberaidd yw hwn, â'r carn heb ei dorri i fwrdd, wedi'i gorchuddio â haenen werdd denau o lwydni amddiffynnol a gwrych du y mochyn wedi'u cadw arni. Fe'i gwaherddir oherwydd ei bod hi'n amheus a oes yn Sbaen gyfan yr un lladd-dy sy'n cydymffurfio â rheoliadau Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau.

Mae Americanwyr yn cael eu rhwystro rhag mwynhau un o ddanteithion Sbaen. Mae mewnforio *jamón ibérico* – sef coes ôl mochyn Iberaidd, yn cynnwys y carn, a'r cyfan wedi'i orchuddio gan haen amddiffynnol denau o fowld gwyrdd, â blew du gwydn y mochyn yn ymwthio ohoni – yn torri cyfraith yr Unol Daleithiau oherwydd ei bod yn amheus a oes yr un o ladd-dai Sbaen yn cydymffurfio â rheoliadau Adran Amaeth yr Unol Daleithiau.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae bwyd o Sbaen yn cael ei wrthod i Americanwyr. Mae mewnfario *jamón ibérico*, sef coes ôl mochyn o Sbaen gyda’r carn wedi ei gysylltu wrthi sydd wedi’i gorchuddio mewn haen werdd o fowld er mwyn ei diogelu ac sy’n tyfu gwallt mochyn gwrychog, du, i’r Unol Daleithiau yn anghyfreithlon. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn amheus a oes yr un lladd-dy yn Sbaen sy’n cydymffurfio â rheoliadau Adran Amaeth yr Unol Daleithiau.

- Nid yw ‘bwyd o Sbaen’ yn cyfleu grym a *Spanish delicacy*
- Nid yw ‘gwallt’ yn cyfleu grym cyd-destun y gwreiddiol
- Mae ‘gwrychog, du’ yn goleddfu ‘mochyn’ yn y cyfieithiad ond ‘gwrych’ y mochyn sef *pig hair* a oleddfir yn y gwreiddiol
- Nid yw ‘diogelu’ yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Dianghenraid yw dewis y ffurf ‘mowld’
- Mewn ysgrifennu safonol rhaid gwahaniaethu rhwng ‘gyda, gan, â’
- Yr arddodiad ‘â’ a ddewisir i gwblhau ystyr ‘gorchuddio’
- Y prif gymal yw: ‘Mae mewnfario *jamón ibérico*... i’r Unol Daleithiau yn anghyfreithlon.’ Collir grym yr ymadroddion arddodiadol yn llwyr am fod yr elfen gyfosod (a gyflwynir gan ‘sef’) yn ymyrryd yn ddifrifol â rhediad y frawddeg. Dylid dewis cystrawen wahanol.

28. Gwreiddiol:

Devotees include Alain Senderens, chef of the three-star Lucas Carton restaurant in Paris whose hams are tagged and cured at Carnicas Joselito. Joselito hams can cost up to \$1,000 with a minimum purchase of 50. There is a five year waiting list.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae Alain Senderens pen-cogydd bwyty tair-seren Lucas Carten ym Mharis, yn brolio rhinweddau *jamón ibérico*, a chaiff ei hamiau ef eu labelu a’u halltu yn Carnicas Joselito. Fe allech dalu hyd at \$1,000 am un o hamiau Joselito, a rhaid prynu o leiaf 50 ohonynt ar y tro. Mae rhestr aros o bum mlynedd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae selogion y cig hwn yn cynnwys Alain Senderens prif gogydd ym mwyty tair-seren Lucas Carten ym Mharis lle y clustnodir ac yr helltir y cig moch gan Carnicas Joselito. Gall cigoedd moch Joselito gostio hyd at \$1,000 a rhaid prynu o leiaf 50. Mae rhestr aros o bum mlynedd.

- Capel neu gymdeithas neu sefydliad neu weithle yw cyd-destun arferol ‘selogion’
- Nid yw ‘prif gogydd ym mwyty tair-seren Lucas Carten’ yn cyfleu grym *chef of the three-star Lucas Carton restaurant*, mae’r cyfieithiad yn cyfleu, yn hytrach, mai ‘un o blith nifer o brif gogyddion yw LC. Y gystrawen gywir yw: prif gogydd bwyty tair-seren Lucas Carten
- Nid yw ‘clustnodi’ yn cyfleu grym gosod nod ar goes y creadur
- Nid enw ar berson mo Carnicas Joselito ac nid bwyty Lucas Carten mo’i weithle
- Nid yw ‘cig(oedd) moch’ yn cyfleu grym y gwreiddiol
- Rhaid dewis ‘ohonynt’ i ddilyn ‘50’ er mwyn cwblhau ystyr y frawddeg yn briodol.

29. Gwreiddiol:

the miners’ cottages [yn Aber-fan}

Cyfieithu llwyddiannus:

bythynnod y glowyr

Cyfieithu aflwyddiannus:

bythynnod y mwynwyr:

- Nid yw ‘mwynwyr’ yn cyfleu grym cyd-destun a chywair y gwreiddiol.

30. Gwreiddiol:

It is a sweeter bite than the tougher grasses of the moorlands.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae’n borfa felysach na glaswellt brasach y gweundiroedd.

Mae ganddo flas melysach na glaswellt brasach y gweundiroedd.
Mae iddo flas melysach na glaswellt brasach y gweundiroedd.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'n gnoad melysach na glaswelltiroedd caled y gweundiroedd

- Mae 'cnoad' a 'caled' yn ddewisiadau anaddas yng nghyd-destun y gwreiddiol.

31. Gwreiddiol:

gloomy thoughts

Cyfieithu llwyddiannus:

meddyliau digalon

meddyliau prudd

Cyfieithu aflwyddiannus:

meddyliau tywyll

- Nid yw'r ansoddair a ddewiswyd yn cyfleu union rym y gwreiddiol

32. Gwreiddiol:

Helen could be a corruption of an early Welsh word

Cyfieithu llwyddiannus:

gallai Helen fod yn llygriad o air Cymraeg cynnar

Cyfieithu aflwyddiannus:

gallai Helen fod yn llygredigaeth o air Cymraeg cynnar

- Nid yw'r enw a ddewiswyd yn gweddu i'r cyd-destun.

33. Gwreiddiol:

On Monday...I went off in pursuit of a Roman Road that crosses the moors of North Wales. A breath of fresh air, I thought. But was the air all that fresh?

Cyfieithu llwyddiannus:

Ddydd Llun...es i chwilio am ffordd Rufeinig sy'n croesi rhostiroedd gogledd Cymru. Cyfle am ychydig o awyr iach, meddyliais. Ond a oedd yr awyr mor iach â hynny?

Cyfieithu aflwyddiannus:

Ddydd Llun...fe es i chwilio am ffordd Rufeinig sy'n croesi rhostiroedd gogledd Cymru. Cyfle am ychydig o awyr iach, meddyliais. Ond a oedd yr awyr mor ffres/mor glir â hynny?

- Byddai dewis ail-adrodd yr ansoddair 'iach' nid yn unig wedi golygu cadw'n nes at ystyr y gwreiddiol, ond hefyd wedi rhoi i'r Gymraeg rym ychwanegol o gofio cyd-destun y darn.

34. Gwreiddiol

It made a good yarn a thousand years ago and I dare say it will go on being told long after the sheep that graze Sarn Helen will have ceased to be radioactive.

Cyfieithu llwyddiannus

Roedd yn chwedl dda mil o flynyddoedd yn ôl, ac mi fentra i y bydd yn cael ei hadrodd ymhell ar ôl i'r defaid sy'n pori Sarn Helen beidio â bod yn ymbelydrol.

Roedd hon yn stori dda fil o flynyddoedd yn ôl, ac mi fentraf y caiff ei hadrodd ymhell wedi i'r defaid sy'n pori yn Sarn Helen beidio â bod yn ymbelydrol.

Roedd hon yn stori dda fil o flynyddoedd yn ôl a synnwn i ddim na fydd adrodd arni ymhell ar ôl i'r ymbelydredd ddiflannu o'r defaid sy'n pori Sarn Helen.

Cyfieithu aflwyddiannus

Roedd yn stori dda fil o flynyddoedd yn ôl, ac rwy'n mentro dweud y bydd yn dal i gael ei adrodd ymhell ar ôl i'r defaid sy'n pori Sarn Helen farw o achos ymbelydredd.

- Anwybyddu cytundeb o ran cenedl (stori dda, bydd yn dal i gael ei adrodd)
- Cyfleu gwybodaeth anghywir.

35. Gwreiddiol:

Normally, the women would have been busy shovelling it up to dump it in the coal house at the back.

Cyfieithu llwyddiannus:

Fel rheol byddai'r gwragedd yn brysur yn rhawio'r glo a'i gario i'r cwt glo yn y cefn.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Fel rheol, y gwragedd fyddai'n brysur yn rhawio'r glo a'i gario i'r cwt glo yn y cefn.

- Dyma ddewis cystrawen y frawddeg bwyslais/gymysg yn yr iaith darged. Ni ddynodir pwyslais yn y frawddeg gyfatebol yn y darn gwreiddiol.

36. Gwreiddiol:

They were standing at their doors.

Cyfieithu llwyddiannus:

Roedden nhw'n sefyll wrth eu drysau.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Roedden nhw'n sefyll wrth ei drysau.

- Mae sicrhau cytundeb rhif rhwng gwahanol elfennau'r frawddeg yn sylfaenol bwysig.

37. Gwreiddiol:

The Children's Act 1989

Cyfieithu llwyddiannus:

Deddf Plant 1989

Cyfieithu aflwyddiannus:

Y Ddeddf Plant 1989

Dechreuwyd trafod ychydig ar y genidol eisoes (gw. 7 uchod).

Yr hyn a geir yn yr olyniad 'Deddf 1989' yw dau ymadrodd enwol (sef elfen a all weithredu naill ai fel goddrych neu fel dibeniad yng nghyfluniad y cymal). Mae'r ail ymadrodd enwol (sef '1989' yn yr achos hwn) yn ddibynnol ar y cyntaf; fe'i gelwir yn aml yn enidol. Dyma nodi rhai enghreifftiau cyffredin eraill:

tractor Ifan	Bannau Sir Gâr	Senedd yr Alban	Prifysgol Cymru
--------------	----------------	-----------------	-----------------

Mae'r ymadroddion enwol a danlinellwyd yn ddibynnol ar yr ymadrodd enwol sy'n rhagflaenu; mae'r ymadroddion enwol a danlinellwyd yn enwau priod ac yn benodol, yn ogystal, gan mai dynodi unigolyn neu wrthrych neu gyfnod penodol a wna'r ail elfen. Mae'r ffaith bod yr ail elfen yn benodol, yn gwneud yr elfen gyntaf yn benodol yn ogystal. Ni all y fannod, felly, oleddfu ymadrodd enwol sydd wedi'i oleddfu eisoes gan ymadrodd enwol dibynnol. Hynny yw ni ellir derbyn:

* y tractor Ifan	*y Bannau Sir Gâr	*y Prifysgol Cymru	*y Cwpan Heineken
*y Senedd yr Alban	*y car Gwilym Thomas	* y Ddeddf 1989	*y Ddeddf Plant 1989

Ni ddisgwylir i elfen sy'n ymadrodd enwol dibynnol dreiglo mewn ysgrifennu safonol cyfoes.

38. Gwreiddiol:

Children who are 'looked after' include children who are subject to an interim or full care order.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae plant 'sy'n derbyn gofal' yn cynnwys plant sy'n destun gorchymyn gofal dros dro neu'n destun gorchymyn llawn.

Mae plant 'sy'n derbyn gofal' yn cynnwys plant sydd dan orchymyn gofal dros dro neu dan orchymyn llawn.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae plant 'sy'n derbyn gofal' yn cynnwys plant sy'n destun i orchymyn gofal dros dro neu llawn.

- Mae dewis yr arddodiad 'i' yn adlewyrchu cystrawen y gwreiddiol; nid yw'n dderbyniol mewn cywair Cymraeg safonol
- Mae'r frawddeg wreiddiol yn cynnwys cyfeiriad at fwy nag un *order* sef *interim care order* a *full care order* er mai unwiath yn unig y dewisir yr enw *order*. Mae'n batrwm cyffredin yn y Saesneg. Mae ailadrodd 'gorchymyn' yn y Gymraeg yn cyfleu union rym yr ergyd a fwriedir gan y frawddeg wreiddiol.

39. Gwreiddiol:

train drivers..... 136 trains

Cyfieithu llwyddiannus:

gyrwyr trêen..... 136 o drenau

Cyfieithu aflwyddiannus:

gyrrwyr trêen.....136 o drenau

- gyrrwr, gywyr; trêen, trenau sy'n safonol.

40. Gwreiddiol:

creithiau gwaith mwyn

Cyfieithu llwyddiannus:

*scars of mineral workings
scars of mineral extraction*

Cyfieithu aflwyddiannus:

remains of mineral works

- Camddeall grym 'mineral works'. Onid 'gwaith pop' yw *mineral works*?

41. Gwreiddiol

Connell's big victory was the banning of night flights into Heathrow.

Cyfieithu llwyddiannus:

Buddugoliaeth fawr Connell oedd sicrhau bod awyrennau'n cael eu gwahardd rhag hedfan i Heathrow yn ystod y nos.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Buddugoliaeth fawr Connell oedd gwahardd awyrennau rhag hedfan i Heathrow yn ystod y nos.

- Colli grym ystyr y gwreiddiol.

42. Gwreiddiol:

This roof is used by bats which are protected by law. Do not disturb.

Cyfieithu llwyddiannus:

Defnyddir y to hwn gan ystlumod a warchodir gan y gyfraith. Peidiwch â tharfu arnynt.

Mae'r to hwn yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod sydd wedi eu hamddiffyn gan y gyfraith. Peidiwch ag amharu arnynt.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Defnyddir y tô hwn gan ystlumod

Defnyddir y drws hwn gan ystlumod sydd yn cael eu gwarchod gan y gyfraith. Peidiwch â'u haflonyddu.

- Anghywir yw dewis yr acen grom.
- Nid yw 'drws' yn cyfleu grym y gwreiddiol.
- Mewn ysgrifennu safonol dewisir yr arddodiad 'ar' i gwblhau ystyr y ferf 'aflo
nyddu'.
43. Gwreiddiol:

I left my car by a river in one of those splendid shaded picnic places that the Forestry Commission has provided in so many choice places.

Cyfieithu llwyddiannus:

Gadewais fy nghar wrth ymyl afon yn un o'r llecynnau picnic hyfryd a chysgodol hynny mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi eu darparu mewn cynifer o lefydd dethol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

Gadewais fy nghar mewn un o'r manau picnic cysgodol gwych hynny y mae'r Comisiwn Goedwigaeth wedi eu darparu mewn cymaint o leoedd ardderchog.

- Dewis arddodiad anghywir.
- Mewn ysgrifennu safonol ni threiglir yn dilyn enw gwr. un.

44. Gwreiddiol:

I am glad however that we felt confident in what we were doing rather than finding ourselves out of our depth.

Cyfieithu llwyddiannus:

Rwy'n falch, sut bynnag, ein bod ni'n teimlo'n hyderus ynglŷn â'r hyn roeddem ni'n ei wneud yn hytrach na'n bod ni wedi ein cael ein hunain allan o'n dyfnder.

Ar y llaw arall rwy'n falch ein bod ni'n teimlo'n hyderus ynglŷn â'r hyn roeddem ni wedi ei wneud yn hytrach na'n bod ni wedi ein cael ein hunain allan o'n dyfnder.

Er hynny mae'n dda gen i ein bod ni'n teimlo'n hyderus ynglŷn â'r hyn roeddem ni wedi ei wneud yn hytrach na'n bod ni wedi'n cael ein hunain mewn dyfroedd dyfnion.

Cyfieithu aflwyddiannus:

...wedi cael ein hunain allan o'n dyfroedd.

...wedi gweld ein hunain allan o'n dyfnderoedd

- 'ein...ein hunain' a ddewisir mewn ysgrifennu safonol.
- Heb lwyddo i gyfleu grym idiom y gwreiddiol.

45. Gwreiddiol:

Days three and four were spent with the new man in charge. He had himself been a learner and was sympathetic and understanding. He was a man of fearsome linguistic ability.

Cyfieithu llwyddiannus:

Treuliwyd y trydydd a'r pedwerydd diwrnod gyda'r pennaeth newydd. Roedd ef ei hun wedi dysgu'r iaith ac roedd yn deall ac yn gallu cydymdeimlo â ni. Roedd yn ŵr o allu ieithyddol aruthrol.

...y dyn newydd wrth y llyw.

...yn llawn cydymdeimlad a dealltwriaeth.

Cyfieithu aflwyddiannus:

...y dyn newydd yn ngofal.

...gallu ieithyddol brawychus.

- Nid yw'r ymadrodd enwol yn gyflawn. Rhaid ychwanegu 'y cwrs' neu olyniad cyffelyb i gwblhau'r ymadrodd.

- Nid yw 'brawychus' yn iawn gyfleu grym y gwreiddiol.

46. Gwreiddiol:

the BBC's nightly shipping forecast

Cyfieithu llwyddiannus:

rhagolygon nosweithiol y BBC i forwyr
rhagolygon y tywydd i forwyr yn nosweithiol ar y BBC
rhagolygon y tywydd ar y môr ar y BBC bob nos

Cyfieithu aflwyddiannus:

rhagolygon llongau'r BBC bob nos
rhagolygon morwyr nosol y BBC
rhagolygon tywydd i forwyr nosweithiol y BBC

- Heb ddeall grym elfennau'r cyfluniad gwreiddiol.

47. Gwreiddiol:

a valid driver's licence

Cyfieithu llwyddiannus:

trwydded yrru ddilys

Cyfieithu aflwyddiannus:

trwydded gyrru dilys

- Enw benywaidd unigol yw 'trwydded'.

48. Gwreiddiol:

road tax

Cyfieithu llwyddiannus:

treth cerbyd

Cyfieithu aflwyddiannus:

treth ffordd

- Ffurf fypwyol.

49. Gwreiddiol:

I was looking for men, or rather the memory of men who had mined for gold in that Welsh hillside on and off for maybe 2000 years.

Cyfieithu llwyddiannus:

yn achlysurol

Cyfieithu aflwyddiannus:

bob yn ail â pheidio

50. Gwreiddiol:

...it is especially refreshing to be guided round by enthusiastic young students

Cyfieithu llwyddiannus:

...mae'n arbennig o braf...

...mae'n deimlad braf...

...a braf iawn yw...

...mae'n bleser...

Cyfieithu aflwyddiannus:

...mae'n arbennig o adfywiol

...mae'n adfywiol iawn

- Mae'r enghreifftiau aflwyddiannus a nodir dan **50 a 51** yn adlewyrchu tuedd i droi'n ormodol at Cysgair am awgrymiadau pan fydd gair neu ymadrodd yn peri trafferth. Roedd cynigion yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi defnyddio'u dychymyg yn rhagori llawer iawn ar awgrymiadau Cysgair, nad oeddent yn hollol addas yn y cyd-destun dan sylw.

51. Gwreiddiol:

A good place for industrial archaeologists of course but even to those of us who don't know the first thing about industry it is a truly fascinating mine which almost certainly dates back to the Romans.

Cyfieithu llwyddiannus:

Mae'n lle da i archeolegwyr diwydiannol, wrth gwrs, ond i'r rheini ohonom...

Cyfieithu aflwyddiannus:

Mae'n lle da i archeolegwyr diwydiannol wrth gwrs ond i'r rheini ohonom...

- Byddai pob un ohonom, mae'n siwr, yn barod i gydnabod bod y gwreiddiol yn ddiffygiol o ran atalnodi. Mae'r un nam yn cael ei adlewyrchu yn y frawddeg aflwyddiannus. Nid paratoi her, sef darllen darn heb ei atalnodi ar gyfer eisteddfod y capel yw amcan y cyfieithydd. Ei nod, yn hytrach, yw cyfathrebu'n llwyddiannus. Yr unig ffordd synhwyrol o wneud hynny yw crynhoi rhai geiriau at ei gilydd a chadw eraill ar wahân. Ni ddylai'r cyfieithydd gael ei lethu gan arfer annerbyniol yn y gwreiddiol. Mae atalnodi'n synhwyrol yn rhwym o wella grym y cyfieithiad.

52. Gwreiddiol

The real salad days of the oyster came at the end of the 19th century...

Cyfieithu llwyddiannus:

oes aur

Cyfieithu aflwyddiannus:

glaslencyndod yr wystrysen
dyddiau salad
dyddiau glas

- Heb ddeall grym yr idiom yn y gwreiddiol.

53. Gwreiddiol:

the Thames

Cyfieithu llwyddiannus:

afon Tafwys

Cyfieithu aflwyddiannus:

yr afon Tafwys

- Defnydd anghywir o'r fannod.

54. Gwreiddiol:

a quart of oysters

Cyfieithu llwyddiannus:

cwart o...

Cyfieithu aflwyddiannus:

chwarter o...

- Heb ddeall y mesur.

55. Gwreiddiol:

In a stunning lack of joined-up thinking, oyster smacks were fishing the mouth of the Thames as the sewage boats, quite literally, dropped their load.

Cyfieithu llwyddiannus:

synnwyr cyffredin
diffyg cynllunio

Cyfieithu aflwyddiannus:

diffyg syfrdanol o feddwl unedig

- Methu â chyfleu grym y gwreiddiol yn llwyddiannus naturiol.

56. Gwreiddiol

Councillors considered the views...raised

Cyfieithu llwyddiannus

Ystyriodd y cynghorwyr y farn...

Cyfieithu aflwyddiannus

Ystyriodd y cynghorwyr y barnau...

- Cyfathrebu'n llwyddiannus yw nod pob cyfieithydd. Ni ddylai, yn ei gyfieithiad, gael ei lyffetheirio gan union gyfluniad pob uned gyfathrebu yn y testun gwreiddiol, boed yr uned gyfathrebu honno'n baragraff, yn frawddeg, yn gymal, yn ymadrodd, yn air, yn forffem, yn atalnod, yn idiom, yn ddihareb, yn gyflythrennu ... Nid yw pob ymgeisydd wedi dysgu'r wers sylfaenol hon a'r canlyniad, yn anffodus, yw cyfathrebu cloff. Nid oes rhaid dewis enw lluosog bob tro yn y Gymraeg dim ond oherwydd bod y Saesneg wedi dewis enw lluosog. Mae 'barnau' yn drwsgl yn y cyd-destun dan sylw; byddai 'barn' yn naturiol dderbyniol – ac mae grym yr enw unigol yn cwmpasu mwy nag un farn. Mewn brawddeg arall, roedd rhai ymgeiswyr wedi dewis 'synau'r gwynt' i ddynodi *the sounds of the wind*; byddai'r enw unigol yn ddewis mwy naturiol.
- **Gweler 13 uchod.**

57. Gwreiddiol

Locally they are known as Irishmen's huts and to see them at their best I would always go to the Town of the Giants, an Iron Age fortress on the hills which English tourists have always called The Rivals.

Cyfieithu llwyddiannus

y bryniau y mae twristiaid o Loegr erioed wedi cyfeirio atynt fel 'The Rivals'
y bryniau a alwyd bob amser 'The Rivals' gan ymwelwyr o Loegr
y bryniau sydd wedi eu galw 'The Rivals' gan dwristiaid o Loegr erioed.

Cyfieithu aflwyddiannus

y bryniau y mae'r Saeson yn galw'r 'Ymrysonwyr'
y bryniau mae twristiaid Seisnig wedi galw'n 'Y Gelynion' erioed
y bryniau y mae'r twristiaid Seisnig wastad wedi'u galw'r Eifl

- Nid yw ceisio cyfieithu 'The Rivals' i'r Gymraeg yn gwneud synnwyr o gwbl yn y cyd-destun hwn.

58. Gwreiddiol

The...village of Nant Gwrtheyrn nestles itself back into the trees behind

Cyfieithu llwyddiannus

Mae pentref...Nant Gwrtheyrn...yn swatio yn y coed y tu ôl iddo

Cyfieithu aflwyddiannus

Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio'i hun yn ôl i'r coed
Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio i'r coed y tu cefn iddo

Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio i mewn i'r coed

- Mae'n amlwg nad oedd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn gysurus yn defnyddio'r ferf 'swatio'

59. Gwreiddiol

although I am no expert on antiquities, I am always pleased to meet a standing stone.

Cyfieithu llwyddiannus

er nad wyf yn arbenigwr ar hynafiaethau, rwyf bob amser yn falch i weld maen hir
er nad wyf yn arbenigwr ar henebion, mae'n bleser gen i bob amser i weld maen hir

Cyfieithu aflwyddiannus

er nad wyf yn arbenigwr ar hynafiaethau, rwyf bob amser yn falch i gyfarfod â maen hir

- Dewis berf anaddas: ymadroddi'r gwreiddiol wedi dylanwadu'n ormodol ar y cyfieithiad.

er nad wyf yn arbenigwr ar henebion, mae'n bleser gen i bob amser i weld carreg sefyll

er nad wyf yn arbenigwr ar hynafiaethau, rwyf bob amser yn falch i gyfarfod â maen safadwy

- Ffurf fypwyol. 'Maen hir, meini hirion' sy'n safonol.

60. Gwreiddiol

I've had trying problems with my mobile-phone company.

Cyfieithu llwyddiannus

...fy nghwmni ffôn symudol

...y cwmni ffôn symudol

Cyfieithu aflwyddiannus

...cwmni fy ffôn symudol

Mae'r cynnig aflwyddiannus sef 'cwmni fy ffôn symudol' yn golygu rhywbeth gwahanol iawn i 'y cwmni ffôn symudol'.

Ystyrier y brawddegau:

'Rwyf yn mwynhau cwmni fy ffôn symudol bob prynhawn.'

'Rwyf yn derbyn gwasanaeth gwych gan y cwmni ffôn symudol hwn.'

'Rwyf yn derbyn gwasanaeth gwych gan y cwmni ffôn symudol gorau yn y byd.

Daw'r dewis llwyddiannus yn amlwg ond inni roi'r olyniad dan sylw yng nghyd-destun

'y...hwn' neu 'y...gorau'.

61. Mae'n drueni gweld gwallau elfennol yn britho gwaith sydd fel arall yn addawol. Mae ambell wall o'r fath yn ddigon dealladwy dan amodau arholiad, ond dro ar ôl tro gwelir nifer sylweddol o wallau o'r math hwn yng ngwaith sawl ymgeisydd; mae hynny'n naturiol yn amharu ar y cyfanwaith.

Dyma grynhoi rhai enghreifftiau o'r gwallau technegol a welwyd yng ngwaith ymgeiswyr:

ein anfonlonrwydd	ein ymdriniaeth	ein anghymeradwyaeth
barbarieath	adar ysgafaethus	2.8 miliwm
heb son am	gwneud hyn yn alwg	Ni does
yn unol a / ymwneud a	cynigon	wenud
meant	newydd profi	gwharddiadau
ar y Cofrestr	camlesu	70,00 (yn lle 70,000)
ar ôl golli	oleaif	fyngaidd (sef ffyngaidd)

Cafwyd llawer o enghreifftiau hefyd o elfennau a oedd heb eu cyfieithu, ac ambell frawddeg oedd wedi'i hepgor yn gyfan gwbl!

Teimla'r arholwyr eu bod yn canu'r un hen gân bob tro wrth dafoli gwaith ymgeiswyr, ond y ffordd sicraf o osgoi'r gwallau hyn (ar ôl defnyddio'r gwirydd sillafu sydd ar y peiriant i ddileu unrhyw wallau teipio) yw darllen y gwaith yn ofalus ar bapur (ochr yn ochr â'r gwreiddiol, ond hefyd fel darn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol) cyn ei gyflwyno. Os yw'r amser wedi mynd yn brin, gall

newidiadau a wnaed â llaw ar y copi caled fod yn ddigon derbyniol, gan fod y marcwyr yn ymwybodol iawn o'r pwysau ychwanegol sydd ar ymgeiswyr o dan amodau arholiad.

62. Gwreiddiol

the indiscriminate slaughter of birds

Cyfieithu llwyddiannus

...lladd yr adar yn ddiwahân

Cyfieithu aflwyddiannus

...y lladd adar yn ddiwahaniaeth

...y lladd diwahân o'r adar yma

- Heb feistrolï'r gystrawen briodol. Ymadroddi'r gwreiddiol wedi lliwio'r cyfieithiad. Y canlyniad yw cyfieithiad cloff.

63. Gwreiddiol

Living as I do on an RSPB reserve, I see visitors every day following the trails or sitting in hides...

Cyfieithu llwyddiannus

A minnau'n byw mewn gwarchodfa RSPB, gwelaf ymwelwyr bob dydd yn dilyn y llwybrau neu'n eistedd mewn cuddfannau...

Cyfieithu aflwyddiannus

Wrth fyw fel rwyf fi

Gan fyw fel yr ydwyf

Yn byw, fel yr wyf

- Yr ymadrodd annibynnol yw'r gystrawen naturiol i'w dewis yma.
- Nid yw ffurfiau berfol megis 'yr ydwyf', 'yr wyf' yn addas i gywair y darn.

64. Gwreiddiol

It was collected from the seashore...and twisted into thick ropes

Cyfieithu llwyddiannus

Fe'i cesglid o lan y môr...ei fwndeli a'i droi yn rhaffau trwchus...

Cyfieithu aflwyddiannus

Fe'i casglwyd o lan y môr...ei fwndeli a'i droi i mewn i raffau trwchus

- Heb feistrolï cystrawen yr 'yn' traethiadol
- Heb feistrolï grym amserau'r ferf

65. Gwreiddiol

A fungal disease wiped out much of the seaweed in the 1920's

Cyfieithu llwyddiannus

Difawyd llawer o'r gwymon...

Cyfieithu aflwyddiannus

Difwyd llawer o'r gwymon...

- Dewis bôn berfol ansafonol

66. Gwreiddiol

She also stole a number of prescriptions from a GP's surgery...

Cyfieithu llwyddiannus

Dygodd bresgripsiynau o feddygfa...

Cyfieithu aflwyddiannus

Dwynodd bresgripsiynau o feddygfa...

- Dewis y bôn berfol anghywir

67. Gwreiddiol

A finance director of an NHS trust falsified accounts in order to meet government targets. The man, who was also the trust's deputy chief executive, was caught after he faked official valuation reports related to the sale of trust-owned land and properties.

Cyfieithu llwyddiannus

Canfuwyd bod cyfarwyddwr cyllid un ymddiriedolaeth GIG wedi ffugio cyfrifon er mwyn cyrraedd targedau'r llywodraeth. Cafodd y dyn, a oedd hefyd yn ddirprwy brif weithredwr yr ymddiriedolaeth, ei ddal ar ôl iddo ffugio adroddiadau prisiadau a oedd yn gysylltiedig â gwerthu tir ac eiddo'r ymddiriedolaeth.

Cyfieithu aflwyddiannus

Ffugiodd cyfarwyddwr cyllid ymddiriedolaeth GIG gyfrifon ffug er mwyn bodloni targedau'r llywodraeth....

- Camddeall grym y gwreiddiol.

68. Gwreiddiol

A dentist created hundreds of ghost patients in one of the biggest ever NHS frauds

Cyfieithu llwyddiannus

...un o'r achosion gwaethaf o dwyll a welwyd erioed yn y GIG

Cyfieithu aflwyddiannus

...un o'r achosion o dwyll mwyaf a welwyd erioed yn y GIG

- Goleddfu'r elfen anghywir.

Diweddarwyd Mehefin 2009